# Mae’r adeilad hon yn rhestredig o dan y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

## Adeilad Rhestredig: Adroddiad am Adeilad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod :** | Sir Ceredigion | **Rhif Cyfeirnod :** | 87823 |
| | | **Dyddiad Dynodi :** | 08 Mar 2021 |
| **Cymuned :** | Llanfair Clydogau | **Dyddiad Diwygio :** | |
| **Ardal :** | Pentrefelin | **Dyddiad Dadrestru :** | |
| | | **Cyfeirnod Grid :** | 261009,248864 |
| | | **Gradd :** | II |
| **Enw :** | Ty’r Felin, Melin Glanffrwd | | |
| **Rhif, Enw, Stryd :** | | | |
| **Ochr o’r stryd :** | | | |

**Lleoliad :**

Ar ochr Orllewinol y Felin, yn cefnu ar Afon Ffrwd Cynon.

**Hanes :**

Mae ty’r felin yn cael ei ddangos ar fap yr Arolwg Ordnans yn yr 1880au, ond yn ymddangos fel pe bai wedi’i addasu o adeilad cynharach, cysylltiedig o bosib â thanerdy a oedd ar y safle yng nghanol y 19eg ganrif. Cafodd y ty ei adnewyddu o 1987 ymlaen fel rhan o adnewyddu’r felin.

**Tu allan :**

Ty 2-lawr 3-ffenestr o gerrig rwbel a tho llechi wedi’i adnewyddu gyda chyrn simdde cerrig. Mae 4 uniad fertigol yn wal y tu blaen sy’n awgrymu ail-gynllunio adeilad cynharach. Ffenestri codi corniog 12-paen yw’r ffenestri, rhai mwy yn y llawr isaf, wedi’u hadnewyddu dan bennau cambr o frics a siliau carreg. Mae’r drws modern wedi’i osod yn ôl ychydig. Yn nhalcen ochr dde y ty mae ffenestr debyg i’r un sy’n is ar y dde. I’r cefn mae ffenestr risiau ganolog gyda chasment paen-bychan a ffenestr gasment wedi’i gosod i mewn yn ddiweddarach yn is i’r dde. O flaen y ty mae arwyneb coblog.

**Tu mewn :**

Mae i’r ty neuadd risiau canolog ac ystafelloedd i’r dde a’r chwith, wedi’u rhannu gan barwydydd estyllog wedi’u hadnewyddu. Mae llawr o frics du a choch i’r neuadd risiau a’r ystafell i’r dde. Mae hefyd yn yr ystafell i’r dde le tân haearn-bwrw mewn ffrâm bren. Mae yna risiau coes-ci sy’n rhan o’r adnewyddu modern, a distiau llawr wedi’u hadnewyddu. Yn y llawr uchaf mae nenfydau wedi’u bordio, ac estyll llawr wedi’u peintio tua diwedd yr 20fed ganrif.

**Rhestredig :**

Wedi’i restru fel ty o ddiwedd yr 20fed ganrif sydd wedi cadw’i gymeriad gwreiddiol ac oherwydd ei werth grwp gyda Melin Glanffrwd ac eitemau rhestredig eraill ym Mhentrefelin.

**Cyfeiriadau**
Ni chofnodwyd unrhyw un

**Darddiadau**
Ni chofnodwyd unrhyw un